**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

9 Mawrth 2023

Annwyl Jane

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Diolch am rannu cofnodion cyfarfod diweddaraf y Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

Yn ddiweddar gwnaethom drafod yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar geisiadau i'r Cynllun EUSS gan ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru, a gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad monitro diweddaraf ar ôl hynny.

Mae ein hadroddiad yn codi nifer o faterion, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth o ran y pwyntiau a ganlyn:

- Beth yw barn Llywodraeth Cymru am benderfyniad yr Uchel Lys ar hawliau dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog?
- Pa effaith, os o gwbl, y gallai'r dyfarniad ei chael ar y gwasanaethau cyngor a chymorth am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru?
- Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r dyfarniad?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn ymestyn ei gwasanaeth cyngor a chymorth am ddim y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2023?
- A yw Llywodraeth Cymru wedi gallu pennu faint o bobl o Wcrain a gyrhaeddodd Gymru a wnaeth gais o ran y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Jenny Rathbone

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol